



Hysbysiad Preifatrwydd – Archwiliadau Diogel ac Iach

Os ydych wedi penderfynu eich bod am i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) gwblhau Archwiliad Diogel ac Iach mae'n bwysig eich bod yn deall sut y byddwn yn casglu a defnyddio'ch gwybodaeth bersonol a beth ydi'ch hawliau chi mewn perthynas â'ch gwybodaeth.

Pam mae'n rhaid i chi brosesu fy ngwybodaeth?

Bydd yr wybodaeth yr ydym ni'n ei gasglu yn ein galluogi i ymweld â chi (e.e. eich cyfeiriad) ac yna cyflawni pwrpas yr ymweliad (darparu cyngor). Bydd yr ymweliad yn digwydd ar gais, a bydd yr wybodaeth a gesglir yn cael ei ddefnyddio gennym ni i ddarparu'r gwasanaeth y gofynnwyd amdano ac i gwrdd â'n goblygiadau o dan Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004. Mae'r goblygiadau hyn yn cynnwys hybu diogelwch tân, lleihau'r risg i chi ac eraill rhag tân, darparu cyngor ar y camau i'w cymryd mewn achos o dân, diogelu ein cymunedau trwy wella eich diogelwch chi ac eraill a darparu cefnogaeth i wella eich iechyd a'ch lles. Felly, mae'n rhaid defnyddio data personol i gwrdd â'n goblygiadau o dan y Ddeddf ac, ar gyfer data mwy sensitif (gwybodaeth iechyd er enghraifft), mae ei ddefnydd yn angenrheidiol er budd sylweddol i'r cyhoedd wrth gwrdd â'n swyddogaethau craidd.

Sut fydd fy ngwybodaeth yn cael ei ddefnyddio?

Bydd yr ymweliad yn cael ei gwblhau gan staff GTAGC a bydd yn digwydd oherwydd atgyfeiriad gan asiantaeth arall, cais gennych chi neu aelod o'ch teulu, neu o ganlyniad i ddigwyddiad yn eich ardal chi, sydd yn golygu y bydd yr holl drigolion yn cael cynnig y gwasanaeth hwn. Mae hyn yn ein helpu ni i asesu'r risgiau a darparu'r cyngor a'r gefnogaeth briodol i chi. Mae'r Archwiliad Diogel ac Iach yn cynnwys cwestiynau a sylwadau yn ymwneud â:

- Lithro, baglu, a chwmpo;
- Llesiant;
- Unrhyw faterion yn ymwneud â'ch ffordd o fyw a all effeithio ar eich diogelwch personol.

Byddwn hefyd yn cofnodi'ch ymatebion, ac yn nodi unrhyw beth yr ydym ni'n ei weld sydd yn berthnasol i'r cwestiynau a phwrpas yr ymweliad. Byddwn hefyd yn cadw cofnod o atgyfeiriadau gan asiantaethau eraill a'r rhesymau pam.

Bydd yr wybodaeth yr ydym ni'n ei gasglu yn ystod yr ymweliad yn cael ei ddefnyddio i:

- Ddarparu gwasanaethau addas i amddiffyn eich diogelwch chi neu ddiogelwch eraill;
- Cofnodi a gwerthuso canlyniadau'r gwasanaethau y mae GTAGC wedi eu darparu;
- Dadansoddi gweithgareddau, adnabod unrhyw dueddiadau a darparu ystadegau dienw i Lywodraeth Cymru ar nifer yr ymweliadau yr ydym ni wedi eu cwblhau.

Pwy fydd gan fynediad at fy ngwybodaeth?

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei storio ar system fewnol a bydd yn cael ei ddefnyddio gan staff sydd ei angen i'w galluogi i gyflawni'r rôl, cwblhau'r ymweliad, bwrw ymlaen gyda chanlyniadau'r ymweliad a gweithredu a gwerthuso'r gwasanaeth.

Fe all canlyniad yr ymweliad olygu y byddai o fudd i bersonél Ystafell Reoli GTAGC a chriwiau gweithredol gael mynediad at wybodaeth benodol i ddarparu ymateb brys effeithiol. O dan yr amgylchiadau hyn byddant yn cael mynediad at gyfeiriad a nodyn yn erbyn y cyfeiriad hwnnw, megis: 22 Stryd Fawr - silindr ocsigen.

Mae amddiffyn eich gwybodaeth bersonol yn hanfodol i ni felly, os byddwn yn anfon atgyfeiriad at asiantaeth partner, mae gennym fesurau diogelwch addas ar waith i sicrhau ei fod yn cael ei rannu'n ddiogel, a dim ond yr wybodaeth sydd yn angenrheidiol ar gyfer yr atgyfeiriad y byddwn ni'n ei rannu.

Yn y rhan fwyaf o achosion ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol heb eich caniatâd chi a byddwch yn cael gwybod ar adeg yr atgyfeiriad. Mae enghreifftiau o'r atgyfeiriadau a fydd yn cael eu cynnig yn ystod yr ymweliad, yn ddibynnol ar ein canfyddiadau, fel a ganlyn:

- Timau atal codymau'r Awdurdodau Lleol a all gefnogi unigolion i atal codymau yn y cartref;
- Safonau Masnachu, i'ch diogelu chi fel cwsmer, a chefnogi masnachwyr cyfreithlon;
- Heddlu Gogledd Cymru i ddarparu cyngor a chefnogaeth i bobl sydd gan bryderon ynghylch troseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol, bregusrwydd a diogelu;
- Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdodau Lleol a all gynnig cefnogaeth i unigolion ar feysydd amrywiol.

Ar rai adegau mae modd i ni rannu eich gwybodaeth bersonol heb orfod gofyn am eich caniatâd chi; os oes gennym ddyletswydd neu bŵer cyfreithiol i rannu'r wybodaeth gyda chyrrff statudol eraill pan ystyrir lles y cyhoedd yn bwysicach na chyfrinachedd personol ac os oes perygl i'ch diogelwch chi neu eraill. Bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud fesul achos.

Am faint fyddwch chi'n cadw fy ngwybodaeth?

Bydd unrhyw gofnodion papur a gesglir yn ystod yr Archwiliad Diogel ac Iach yn cael eu dinistrio'n ddiogel unwaith y byddwn wedi eu trosglwyddo i'n cronfa ddata electronig. Bydd yr wybodaeth ar y gronfa ddata electronig yn cael ei gadw cyhyd ag y bo angen er mwyn i GTAGC gyflawni ei oblygiadau o dan Ddeddf y GTA 2004 i hybu diogelwch tân a lleihau'r perygl o dân yn y gymuned.

Oes yna unrhyw beth arall yr ydw i angen ei wybod mewn perthynas â fy ngwybodaeth bersonol?

Ceir rhagor o wybodaeth am eich hawliau mewn perthynas â'ch gwybodaeth bersonol a phwy y gallwch gysylltu i drafod ymhellach ar wefan GTAGC- www.gwastan-gogcymru.org.uk